Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# National Star yng Nghymru - Mamhilad

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â National Star yng Nghymru - Mamhilad

Agorwyd National Star yng Nghymru – Mamhilad ym mis Medi 2016. Mae'r coleg yn darparu lleoliadau dydd ar gyfer dysgwyr sydd ag ystod o anawsterau dysgu cymhleth, gan gynnwys anafiadau caffaeledig i'r ymennydd, anableddau corfforol, anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau cyfathrebu. Mae gan y coleg 17 o ddysgwyr rhwng 18 a 23 oed ar hyn o bryd.

Mae cwricwlwm y coleg yn cynnig llwybrau dysgu personoledig gyda nodau ar gyfer dysgu a byw yn annibynnol. Cenhadaeth y coleg yw 'galluogi pobl ag anableddau i gyflawni eu potensial trwy wasanaethau dysgu, pontio a chyrchfan personoledig'.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar Ystâd Parc Mamhilad, ger Pont-y-pŵl. Mae'r adeilad yn cynnwys ystafell ddosbarth synhwyraidd, ystafell llythrennedd digidol, ystafell therapi a chegin ar gyfer datblygu medrau coginio a medrau bywyd.

Mae National Star yng Nghymru - Mamhilad yn rhan o'r National Star Foundation ac yn rhannu swyddogaethau allweddol gyda'r National Star College. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau technegol, rheoli ystadau, adnoddau dynol, rheoli iechyd a diogelwch, hyfforddiant a datblygiad staff, a chymorth ariannol. Hefyd, mae gan y pennaeth gwasanaeth ar gyfer y coleg gyfrifoldeb am wasanaeth darpariaeth ddydd yn Henffordd. Darperir arweinyddiaeth strategol gyffredinol ar gyfer y coleg gan y National Star College.

Hwn yw ail ymweliad monitro'r coleg.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae'r coleg wedi ehangu'n gyflym ers ei agor ym mis Medi 2016. Mae wedi adolygu agweddau ar ei ddarpariaeth ar gyfer nifer gynyddol y dysgwyr yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae wedi cynyddu'r ystafelloedd dosbarth, a nifer y staff i gynorthwyo dysgwyr.

Mae dysgwyr yn mwynhau mynd i'r coleg ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau personol. Mewn gwersi, maent yn ymgymryd yn dda â gweithgareddau. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a gyda staff.

Mae gan y coleg brosesau asesu cadarn i nodi gwaelodlinau dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn y coleg, gan gynnwys mewnbwn gwerthfawr gan dîm amlddisgyblaethol y coleg. Mae tiwtoriaid a therapyddion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i osod nodau dysgu sylfaenol dysgwyr a rhoi mewnbwn gwerthfawr i adolygiadau rheolaidd o gynnydd dysgwyr. Mae'r dull cydlynus hwn yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol iawn.

Mae arweinwyr yn olrhain yn agos y cynnydd a wna dysgwyr yn unol â'u targedau, yn ogystal ag agweddau pwysig ar eu lles fel presenoldeb ac ymddygiad. Mae hyn yn helpu'r coleg i gynllunio i fodloni ystod eang anghenion unigol dysgwyr wrth iddynt symud trwy'r coleg.

Mae'r coleg wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion o'r ymweliad monitro diwethaf ac wedi gwneud cynnydd da yn unol â llawer o agweddau ar yr argymhellion hyn.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae gan y coleg ffocws cryf ar baratoi dysgwyr gyda'r medrau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd mwy annibynnol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio gwersi tiwtoriaid yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu'n annibynnol yn gyson. Er enghraifft, nid yw defnyddio hyrwyddwyr i gefnogi dysgu yn hyrwyddo annibyniaeth yn ddigon da. Yn ychwanegol, ni chaiff gweithgareddau dysgu eu gweddu'n ddigon da i alluoedd unigol dysgwyr bob amser.

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar a deniadol. Fodd bynnag, mae'r gofod sydd ar gael, yn fewnol ac yn allanol, yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr elwa ar gwricwlwm sy'n bodloni eu hanghenion yn llawn.

Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn dysgu yn y gwaith mewn lleoliadau realistig.

## Argymhellion

Dylai'r coleg:

A1 Sicrhau bod cynllunio tiwtoriaid yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu'n annibynnol, yn unol â galluoedd dysgwyr

A2 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella'r asesu a'r cynllunio ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr**

Mae'r coleg wedi gwella'r drefn o asesu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn briodol. Pan fyddant yn dechrau yn y coleg, caiff pob un o'r dysgwyr asesiadau gwaelodlin cychwynnol manwl i sefydlu eu lefelau llythrennedd a rhifedd. Ceir prosesau cadarn i sicrhau bod targedau tymor byr yn cysylltu'n effeithiol â nodau tymor hir. Mae'r coleg yn adolygu cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau yn rheolaidd.

Mae cynllunio gwersi tiwtoriaid yn cynnwys ffocws priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau dysgu yn bwrpasol yn gyson. Mewn llawer o wersi, mae diffyg her a chollir cyfleoedd i ddysgwyr wneud cynnydd.

**Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod swyddog diogelu dynodedig ar y safle yn y coleg bob amser**

Mae'r coleg wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn. Erbyn hyn, mae gan y coleg arweinydd diogelu dynodedig sy'n gweithio yn y coleg. Mae gan y coleg weithdrefnau diogelu effeithiol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda dysgwyr, rhieni a staff. Mae polisïau a gweithdrefnau yn nodi'n glir arweinydd diogelu'r coleg a'i rôl yn y sefydliad ehangach.

**Argymhelliad 3: Datblygu prosesau hunanasesu cadarn a defnyddio'r rhain i lywio cynllunio gwelliant**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r coleg wedi sefydlu prosesau addas i arfarnu ei waith. Mae adroddiad hunanarfarnu'r coleg yn darparu trosolwg manwl a buddiol o waith y coleg. Mae'n defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol, fel arsylwadau o addysgu a dysgu, ac yn cynnwys mewnbwn gan rieni, disgyblion a rhanddeiliaid eraill.

Mewn ychydig o achosion, fel arsylwadau o addysgu a dysgu, nid yw prosesau'n canolbwyntio'n ddigon clir ar safonau medrau dysgwyr na'r cynnydd a wnânt mewn gwersi. At ei gilydd, mae adroddiad hunanarfarnu'r coleg yn rhy ddisgrifiadol ac yn canolbwyntio gormod ar agweddau ar ddarpariaeth y coleg yn hytrach nag ar effaith hyn ar ddeilliannau dysgwyr.

Mae meysydd i'w datblygu yn adroddiad hunanarfarnu'r coleg yn cysylltu'n fras â blaenoriaethau ar gyfer gwella yng nghynllun gwella'r coleg. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gwella yn cynnwys digon o fanylion i ddangos sut bydd y coleg yn cyflawni'r nodau hyn. Yn benodol, nid yw'n nodi'r camau gweithredu penodol sydd eu hangen i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn benodol i National Star yng Nghymru yn Mamhilad**

Mae'r coleg wedi bodloni'r argymhelliad hwn yn llawn. Mae polisïau a gweithdrefnau bellach yn adlewyrchu holl ddeddfwriaeth, arweiniad a chyngor perthnasol Cymru, ac yn adlewyrchu'n briodol anghenion dysgwyr sy'n mynychu National Star yng Nghymru yn Mamhilad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/02/2019